

Tud 1.

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanbedr Rhagfyr 1 af 2022

Presenoldeb – Cyngor llawn namyn un. Cyfarfod rhithiol ac yn y Neuadd Bentref.

Ymddiheuriadau

Nia Jones

Roedd presenoldeb gan HAL hefyd. Heidi a Donna. Donna wedi cychwyn a r ei swydd fel rheolwr ers mis gorffennaf.

Cafwyd adroddiad gan HAL parthed datblygiadau yn y Pwll nofio. Deall nad yw plant Ysgol Llanbedr wedi dychwelyd I'r pwll hyd yma am wersi Ysgol.

Angen eto am gytundeb 5 mlynedd er mwyn sicrhau grantiau. Ond ni welwyd unrhyw doriadau mewn gwariant I wahanol gategoriâu - megis cyflogau, cemegion, ynni.

Llawer o bethau positif yma hefyd – partion plant, er mwyn codi arian.

Y pwll wedi cael gorchydd newydd.

Hawl I barcio campervans dros nos – a talu £10 y noson. Gallu defnyddio cyfleusterau megis cawod yn y pwll. Codi £3.00 am gawod. Y caffi hefyd yn elwa drwy gynnig brecwast a rhoi paned am ddim.

Heb presept Cynghorau Cymuned byddai y pwll yn cau.

Rhoi £1.10 y ty ar y presept. Swm eitha rhesymol. Pawb yn cyfrannu fel hyn. (Un Cynghorydd yn amau y ffigyrau hyn, ac yn awyddus I weld cyfrifon llawn. Angen mwy o eglurhad o'r cyfrifon.

Mae'r caffi a'r wal ddringo yn cynnal eu hunain. Mae'r pwll nofio yn costio mwy. Rhedeg ar un foiler. Cost boiler Newydd yn £65000.

Nid yw aelodaeth yr un fath ac o'r blaen. Nodwyd hefyd costau gwahanol I bobl hyn.

Beth am gyfraniad Llanbedr . Gobaith y byddent yn dyblu eu swm. (Harlech a Llanfair eisioes yn gneud hyn)

Ar hyn o bryd mae Llanbedr yn rhoi £4314 y flwyddyn. (Disgwyl £8600). Cyngor ddim yn barod I wneud hyn. Felly aros gyda \$4314 a £129 yn ychwaneg.

Ddim yn barod I fynd I gytundeb o 5 mlynedd yna awr. Heb gael cyfle I gael cyfarfod cyhoeddus.

Pasiwyd I aros am flwyddyn. Yn ystod 2023 – 2024 gellid cael cyfarfod cyhoeddus ac ail gysidro efallai.

Buddiant – Kevin Titley parthed cais cynllunio

Aethpwyd dros y gyllideb y Cyngor. Angen sicrhau hwn ym mis Ionawr . Cyfarfod 5.1.23 am 7.00 I drefnu cyllideb.

Symud arian o un lle I le arall er mwyn sicrhau bod arian ar gael ar gyfer archebu goaliau I'r cae chwarae. Dim grantiau ar gael ar gyfer hyn.

Bod £1000 cronfa cyllideb Huchenfeld yn sefyll heb ei ddefnyddio.

Rhyddhad o arian etholiad hefyd.

Tud 2.

£1000 ar gyfer gardd gymunedol . Dim angen hwn ychwaith oherwydd bod Pwyllgor neuadd wedi sicrhau grantiau tuag at hyn.

Prosiect llwybrau hefyd – dim angen yr arian oherwydd dim Gwaith cyfalaf wedi ei wneud.

Mwy yn y banc felly ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae angen gwario mwy, 2 waith y presept yn y banc. Cadw gormod wrth gefn.

Rhagdybio gwario £22136

Presept yn £15000

Rhagweld £18000 yn y banc diwedd flwyddyn.

Adroddiad ariannol ar gyfer diwedd Tachwedd

Arian yn y Banc – diwedd Tachwedd ££25226.47

Talwyd cyfraniad I HAL = £2157.02

Cyfieuthu £90.00

Charges banc £8.20

Cae Chwarae Iron Designs £160

Trafodwyd ceisiadau cynllunio –

Safle ger Capel Salem – ar gyfer glampio – cefnogi hwn gan bod hyn yn well na safle cadw cyrff anifeiliaid. Gofal gyda swm.

Ty Capel Moreia a Festri – cefnogi y datblygiad yma hefyd. Deall bod cytundeb gyda eiddo lleol ar gyfer parcio. (Un Cynghorydd yn datgan diddordeb)

Sefyllfa gyda cais cynllunio – adwy Coed Hafod y Coed. Llawer o waith papur gan ei fod yn safle SSI.

### **Materion yn Codi**

Ffordd Newydd – dim l'w adrodd, oherwydd llanastr yn Westminster.

Llwybrau cyhoeddus – Gwaith o arwyddo rhai llwybrau wedi ei wneud – llwybr 62 o Tyddyn Bach I Ben yr Allt Fawr. Llwybr Gwydda , a Llwybr Coed Llechi.

Angen torri 2 waith y flwyddyn.

Llwybr Tyddyn Du angen sylw hefyd.

### **Adroddiadau Cynghorwyr**

1. Diolch – AH yn diolch I bawb am y trefniadau Sul y Cofio.

Llinellau melyn – Ty Mawr I Llys Brithyll yn mynd yn ei flaen.

Yn anffodus roedd cwyn parthed gosod llinellau melyn ger Capel Beser. Hyderaf yn fawr felly na fydd damwain yma yn y dyfodol.

Nodi bod dail yn y gwterydd. Hysbysu Cyngor Gwynedd. Bod hyn yn achosi I ddwr sefyll ar y ffyrdd – Coed Garth Goch a Rhiw Felin a ger Crafnant.

Pont Llanbedr – er bod cerrig yn rhydd ar y bont – mae archwiliad wedi ei wneud a canfod ei bod yn berffaith ddiogel!!!

2. Nododd Gwynfor Owen bod Cyngor Gwynedd wedi penderfynny codi treth Cyngor ar dai gwag / ail gartrefi I 150%

Mae hyn ar gyfer helpu y sefyllfa parthed digartrefedd.

Tud 3.

Pwyllgor cyswllt y Cambrian – yn anffodus dim atebion I’r holl gwestiynnay a anfonwyd gan Gyngor Llanbedr. Siomedig iawn gyda hyn.

3. Luise Vassey wedi bod ar hyfforddiant ac wedi anfon y manylion I bawb dros e bost. Diolchwyd iddi am ei hymroddiad.

Unrhyw Fater Arall

Pwyllgor Huchenfeld – ymweliad I Lanbedr ym mis Ebrill 2023’

Codwyd £300 yn y cwis yn ddiweddar. Diolch I Helen Johns am y gwaith trefnu.

Disgwyl cyfraniad o £500 gan y Cyngor (rhoi yn y presept felly)

Sefyllfa gyda’r 2 Kiosg – nododd y Clerc ei bod wedi cael ymateb parthed rhain. Angen tynnu lluniau o’r kiosg, a’u hafnon at y swyddog priodol. Falle bydd modd rhoi ar e u rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Nadolig Llawen I bawb a blwyddyn Newydd Dda.